
# Rhaglen Hyfforddiant Llywodraethwyr Gwynedd 2019/20

***Mae'r Uned Gefnogi Llywodraethwyr yma i'ch cefnogi yn eich rôl fel Llywodraethwr. Cysylltwch drwy ddefnyddio'r ebost canlynol.***
**unedcefnogillywodraethwyr@gwynedd.llyw.cymru**

**Rôl y llywodraethwyr, Aelodaeth, Datganiadau Troseddol a Hyfforddiant** Meleri Mair Griffith **01286 679303**
**melerimairgriffith@gwynedd.llyw.cymru**

---



## Hyfforddiant Mandadol

**Gellir dilyn pob un hyfforddiant mandadol ar lein, cysylltwch â'r Uned Gefnogi Llywodraethwyr i gofrestru. Nid oes rhaid i chi fynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb ond mae hynny'n fanteisiol ar gyfer rhyngweithio gyda Llywodraethwyr eraill a Swyddogion.**

**Rôl y Cadeirydd**
Cwrs ar gyfer cadeiryddion newydd ac is-gadeiryddion sydd yn cynnwys trosolwg o gyfrifoldebau'r cadeirydd a materion statudol ynghyd ag arweiniad ar sut i gynnal cyfarfodydd llywodraethol effeithiol. **6.00-7.30yh**
**Nos Fawrth 05/11/2019 – Plas Menai, Caernarfon**
**Nos Iau 07/11/2019 – Plas Tan-y-bwlch, Maentwrog**

**Anwytho Llywodraethwyr Newydd**
Cwrs ar gyfer unrhyw lywodraethwr newydd. Mae'r cwrs hwn yn cynnig trosolwg o'ch cyfrifoldebau fel llywodraethwr. **6.00-7.30yh**
**Nos Fawrth 12/11/2019 – Plas Menai, Caernarfon**
**Nos Iau 14/11/2019 – Gwesty Nanhoron, Nefyn**
**Nos Lun 18/11/2019 – Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau**

**Dehongli Data**
Cwrs ar gyfer unrhyw lywodraethwr newydd i ddeall a defnyddio data perfformiad. **6.00-7.30yh**
**Dyddiadau i'w cadarnhau – Ionawr/Chwefror 2020**

---

## Hyfforddiant Dewisol

**Gormodedd a Chyllid**
**6.00-7.30yh**
Hyfforddiant ar gyfer aelodau Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau Disgyblu a Diswyddo.
**Nos Fawrth 26/11/2019 – Plas Menai, Caernarfon**
**Nos Iau 28/11/2019 – Plas Tan-y-bwlch, Maentwrog**

**Diogelu Plant**
Hyfforddiant i berson dynodedig amddiffyn plant ar y corff llywodraethol.

---

## Ffair Hyfforddiant Dalgylch

**Ar gais dalgylch gellid trefnu ffair hyfforddiant yn y dalgylch lle y byddai modd cyflwyno nifer o'r sesiynau hyfforddiant dewisol a ganlyn ar yr un amser. Gellir cytuno ar fanylion lleoliad ac amseriad gyda'r dalgylch. Dylid cyfeirio ceisiadau am ffair hyfforddiant i sylw'r Uned Gefnogi Llywodraethwyr.**

| | |
|---|---|
| **Cydraddoldeb** | Cyflwyniad i egwyddorion Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
| **Cyllid** | Hyfforddiant cychwynnol ar ddeall a monitro cyllidebau ysgolion |
| **Delio â Chwynion** | Hyfforddiant ar sut i ddelio'n effeithiol efo cwynion. |
| **Adnoddau Dynol** | Gweithdy adnoddau dynol yn cynnwys, rheoli perfformiad Pennaeth, camau disgyblu, medrusrwydd a salwch. |
| **Llywodraethu Effeithiol** | Sesiwn ar gyfrifoldebau strategol ynghyd â sut i weithredu fel 'Cyfeillion Beirniadol' yn effeithiol. |

---

## Cofrestru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

***Dylech gofrestru i fynd i hyfforddiant wyneb yn wyneb drwy gysylltu â chlerc y llywodraethwyr.***
***Byddwn yn darparu hyfforddiant yn lleol yn ardaloedd Arfon, Dwyfor, Meirion neu ar gais dalgylch.***
***Bydd yn rhaid derbyn cofrestriad o leiaf DDEG enw er mwyn cynnal cwrs dewisol. Yn dilyn hyn, bydd lleoliad ac amser yn cael eu cadarnhau.***